



Adroddiad Cyfarfod
13:09:23
Magee

Cafwyd noson agoriadol arbennig iawn yng Nghwmni Y Brodyr Magee o ardal Caerdybi. Dyma 5 brawd hynod dalentog, ond gan fod James a Mathew i ffwrdd, un yng Nghaerdydd a'r llall yn Llundain - Paul, Sean a Daniel a ddaeth i'n diddanu. Paul sy'n athro yn Ysgol Uwchradd Bodedern oedd yn llywio'r noson yn hamddenol braf, gan ddweud hanes y teulu a'r caneuon wrth fynd yn ei flaen. Mae'r ddau frawd arall yn ddisgyblion yn Ysgol Bodedern, a'u lleisiau a'u cyfeiliant ar y bocs a'r gitâr fâs wedi creu noson i'w chofion. Roeddent yn chwarae caneuon gwreiddiol eu hunain a'u fersiynau hwy o ganeuon pobl eraill, a chafwyd blas ar ganeuon ar bynciau pwysig a mawr y byd, ynghyd a rhai gan Meic Stephens, Alun 'Sbardun' Hughes, Bryn Fôn a Dewi Pws.

Wrth eu cyflwyno fe gawsom ychydig o'u cefndir gan Jen ein llywydd. Maent wedi perfformio mewn amrywiaeth eang o gigs, wedi bod ar y teledu a'r radio, wedi recordio caneuon ac wedi llwyddo i ddod ar restr fer - y 4 olaf - Brwydr y Bandiau Gwerin yr Eisteddfod Genedlaethol a BBC Radio Cymru 2023. Ar hyn o bryd y maent yn gobeithio rhyddhau albwm eu hunain ac fe fyddant yn teithio i'r Iwerddon efo Pedair ac eraill ym Mis Tachwedd. Maent eisoes wedi teithio llawer gyda'u cerddoriaeth drwy Gymru, yr Alban, Iwerddon, Lloegr a Chanada, felly braf iawn oedd cael y fraint o'u croesawu i Fethel! Diolchwn i Noson Fach Allan a Chyngor Gwynedd am noddi'r noson.

Ar ddechrau'r noson cawsom groeso gan Jen, a braf oedd gweld cynifer o aelodau newydd a ffyddlon wedi ymuno. Cafwyd peth newyddion y pentref ganddi gan longyfarch Nora ac Eryl ar ddathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Balch oedd gweld Mary Evans efo ni ar ôl iddi fod yn yr Ysbyty yn ddiweddar, a diolchwyd iddi hefyd am gael benthyg y llestri del ar gyfer y baned. Mae Jen wedi dod yn nain ddwywaith yn ystod yr haf, mab bach Hamish Llewelyn i Ceri a Sam, a merch fach i Aled a Casi, ond fe fydd rhaid aros tan fis nesa i gael gwybod yr enw! Roedd Owain Sion, mab Mair Williams, ar y Newyddion y BBC a S4C yn trafod cost meddyginiaethau yn ei rôl fel Prif Fferylydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Bu nifer o'n haelodau yn brysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan: Anne a Gwyneth yn ein cynrychioli yn y Cyflwyniad ar y thema Llwybrau; Eryl yng nghôr ar brynhawn Mercher, Gwenan a Meira yn y côr

gwerin, a Gwenan yng nghôr y Gymanfa hefyd. Aeth Anne, Gwyneth a Mair Price draw i wneud paned ym mhabell MYW ar y Dydd Sul, ac ar y Dydd Mawrth roedd Gwenan, Meira, Mair Price, Rhian a Jen yn gwneud y baned. Cawsant y fraint o wneud paned i neb llai na Maggi Noggi!

Llongyfarchiadau mawr i Llinos, merch Lynwen, ar gael ei derbyn i'r Orsedd. Deallwn hefyd fod Carwyn ei mab wedi cael wythnos brysur iawn gan ei fod ar bwyllgor canolog llefaru'r Eisteddfod Genedlaethol. Braf oedd ei weld yn y stiwdio gyda Nia Roberts yn rhoi sylwadau ar gystadleuaeth Llwyd o'r Bryn. Roedd Huw, mab Alys, yn beirniadu yn ystod yr wythnos, ac fe enillodd Gwen Jams cystadleuaeth ysgrifennu tair cerdd i blentyn.

Diolch i Meira, Mair Read a Rhian am eu gwaith graenus ar greu dau banel o faint penodol ar y thema Llwybrau, a oedd yn cael eu harddangos fel rhan o arddangosfa MYW Llŷn ac Arfon ym mhabell MYW yn yr eisteddfod. Byddant yn cael eu fframio a gobeithir y bydd cartref iddynt ar wal y caffi cymunedol, Caffi'r Bedol, er mwyn i bawb o'r pentref gael eu gweld.

Diolch i'r pwyllgor am baratoi paned a gwledd o gacennau ar ein cyfer, 'roedd y brodyr yn hynod falch fod Merched y Wawr wedi cadw at y traddodiad! Enillwyd y raffl gan Bet, Deilwen ac Eirlys Sharpe.